OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 489 (Cy.55)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

DŴR, CYMRU

## Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) (Diwygio) 2010

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *1 Mawrth 2010* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *2 Mawrth 2010* |
| *Yn dod i rym - -* | *24 Mawrth 2010* |

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) o ran materion sy'n ymwneud â diogelu dyfroedd rhag llygredd a achosir gan nitradau o ffynonellau amaethyddol a chadwraeth cynefinoedd gwyllt o fflora a ffawna ac maent yn gwneud y Rheoliadau canlynol o dan y pwerau a roddwyd gan yr adran honno.

### Enwi, cymhwyso a chychwyn

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) (Diwygio) 2010, maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 24 Mawrth 2010.

### Diwygio Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) 2008

**2.** Diwygir Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) 2008(**3**) yn unol â rheoliadau 3 i 11.

### Diwygio Rhan 1

**3.**—(1) Diwygir Rhan 1 (Rhagarweiniad) fel a ganlyn.

(2) Yn lle rheoliad 6 (dehongli), rhodder—

“**Dehongli**

**6.** Yn y Rheoliadau hyn—

(**1**) Rhoddodd O.S. 2001/2555 ac O.S. 2002/248 bwerau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn rhinwedd adran 59 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 28(1) o Atodlen 11 iddi, mae'r dynodiad hwnnw bellach wedi breinio yng Ngweinidogion Cymru.

(**2**) 1972 p.68.

(**3**) O.S. 2008/3143.

mae i "amaethyddiaeth" yr ystyr a roddir i "agriculture" yn adran 109(3) o Ddeddf Amaethyddiaeth 1947;

ystyr "ardal amaethyddol" ("*agricultural area*") yw unrhyw dir amaethyddol a ddefnyddir at ddibenion amaethyddol;

ystyr "yr Asiantaeth" ("*the Agency*") yw Asiantaeth yr Amgylchedd;

ystyr "cais i randdirymu" ("*derogation application*") yw cais ar gyfer rhanddirymiad;

mae "cnwd â galw mawr am nitrogen" ("*crop with high nitrogen demand*") yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt, porfa, tatws, betys siwgr, indrawn, gwenith, rêp had olew, haidd, bresych, rhyg a rhygwenith;

ystyr "cynllun gwrteithio" ("*fertilisation plan*") yw cynllun a gafodd ei baratoi o dan reoliad 14(1)(c) neu gynlluniau eraill tebyg y mae'n ofynnol eu cael o dan Atodlen 4;

ystyr "da byw" ("*livestock*") yw unrhyw anifail (gan gynnwys dofednod) a bennir yn Atodlen 1;

ystyr "da byw nad ydynt yn pori" ("*non-grazing livestock*") yw unrhyw anifail a bennir yn Nhabl 2 yn Atodlen 1;

ystyr "da byw sy'n pori" ("*grazing livestock*") yw unrhyw anifail a bennir yn Nhabl 1 yn Atodlen 1;

ystyr "daliad" ("*holding*") yw'r holl dir sydd o fewn parth perygl nitradau ynghyd â'i adeiladau cysylltiedig sydd ar gael i'r meddiannydd ac sy'n cael eu defnyddio i dyfu cnydau mewn pridd neu fagu da byw at ddibenion amaethyddol;

ystyr "daliad a randdirymwyd" ("*derogated holding*") yw daliad y rhoddwyd rhanddirymiad ar ei gyfer;

ystyr "dofednod" ("*poultry*") yw dofednod a bennir yn Atodlen 1;

ystyr "ewtroffig" ("*eutrophic*") yw dŵr sydd wedi'i gyfoethogi gan gyfansoddion nitrogen, sy'n peri i algâu a ffurfiau uwch ar fywyd planhigol dyfu'n gyflymach, gan darfu mewn modd annymunol ar gydbwysedd yr organeddau sy'n bresennol yn y dŵr ac ar ansawdd y dŵr o dan sylw;

ystyr "gwrtaith ffosffad" ("*phosphate fertiliser*") yw unrhyw sylwedd sy'n cynnwys un neu fwy o gyfansoddion ffosffad a ddefnyddir ar dir i wella twf y llystyfiant ac mae'n cynnwys tail organig;

ystyr "gwrtaith ffosffad a weithgynhyrchwyd" ("*manufactured phosphate fertiliser*") yw unrhyw wrtaith ffosffad (ac eithrio tail organig) sydd wedi'i weithgynhyrchu drwy broses ddiwydiannol;

ystyr "gwrtaith nitrogen" ("*nitrogen fertiliser*") yw unrhyw sylwedd sy'n cynnwys un neu fwy o gyfansoddion nitrogen a ddefnyddir ar dir i wella twf y llystyfiant ac mae'n cynnwys tail organig;

ystyr "gwrtaith nitrogen a weithgynhyrchwyd" ("*manufactured nitrogen fertiliser*") yw unrhyw wrtaith nitrogen (ac eithrio tail organig) sydd wedi'i weithgynhyrchu drwy broses ddiwydiannol;

ystyr "porfa" ("*grass*") yw—

(a) glaswelltir parhaol neu laswelltir dros dro (ystyr dros dro yw am gyfnod llai na phedair blynedd);

(b) yr hyn a geir rhwng hau'r borfa ac aredig y borfa; ac

(c) gan gynnwys cnydau wedi'u hau o dan y borfa,

ond nid yw'n cynnwys glaswelltir sydd a 50% neu ragor o feillion;

mae “pridd tenau” (“*shallow soil*”) yn bridd y mae ei ddyfnder yn llai na 40 cm;

ystyr “pridd tywodlyd” (“*sandy soil*”) yw unrhyw bridd sy'n gorwedd ar dywodfaen, ac unrhyw bridd arall—

(a) pan fo yn yr haen hyd at ddyfnder o 40 cm—

(i) mwy na 50 y cant yn ôl pwysau o ronynnau y mae eu diamedr o 0.06 i 2 mm,

(ii) llai na 18 y cant yn ôl pwysau o ronynnau y mae eu diamedr yn llai na 0.02 mm, a

(iii) llai na 5 y cant yn ôl pwysau o garbon organig; a

(b) pan fo, yn yr haen o ddyfnder 40 i 80 cm—

(i) mwy na 70 y cant yn ôl pwysau o ronynnau y mae eu diamedr o 0.06 i 2mm,

(ii) llai na 15 y cant yn ôl pwysau o ronynnau y mae eu diamedr yn llai na 0.02 mm, a

(iii) llai na 5 y cant yn ôl pwysau o garbon organig;

ystyr “rhanddirymiad” (“*derogation*”) yw rhanddirymiad o derfyn y cyfanswm o nitrogen mewn tail da byw y gellir ei ddodi ar dir bob blwyddyn fel a ddarperir ym mharagraff 2(b) o Atodiad III o Gyfarwyddeb y Cyngor 91/676/EEC a roddwyd gan Benderfyniad y Comisiwn 2009/431/EEC(**4**) a roddwyd gan yr Asiantaeth neu, ar apêl, gan y panel apelau ar gais i randdirymu o dan reoliad 13B;

ystyr “slyri” (“*slurry*”) yw carthion a gynhyrchir gan dda byw (ac eithrio dofednod) tra bônt mewn buarth neu adeilad (gan gynnwys unrhyw sarn, dŵr glaw neu olchiadau a gymysgwyd gyda'r carthion hynny) ac y mae eu tewdra yn caniatáu iddynt gael eu pwmpio neu eu gollwng drwy ddisgyrchiant (yn achos carthion sydd wedi'u gwahanu i'w ffracsiynau hylifol a'u rhai solet, y ffracsiwn hylifol yw'r slyri);

mae “taenu” (“*spreading*”) yn cynnwys dodi arwyneb y tir, chwistrellu i mewn i'r tir neu gymysgu â haenau arwyneb y tir ond nid yw'n cynnwys dyddodi carthion yn uniongyrchol ar y tir gan anifeiliaid;

ystyr “tail organig” (“*organic manure*”) yw unrhyw wrtaith nitrogen neu wrtaith ffosffad sy'n dod o ffynonellau anifail, planhigyn neu ddynol ac mae'n cynnwys tail da byw;

ystyr “tir y mae'r risg o oferu drosto yn isel” (“*land that has a low run-off risk*”) yw tir—

(a) y mae ei oleddf cyfartalog yn llai na 3º;

(b) nad oes ganddo ddraeniau tir (ac eithrio pibell anhydraidd sydd wedi'i selio); ac

(c) sydd o leiaf 50 o fetrau o gwrs dŵr neu ddyfrffos sy'n arwain at gwrs dŵr.”.

### Diwygio Rhan 3

**4.**—(1) Diwygir Rhan 3 (Cyfyngu ar ddodi tail organig) fel a ganlyn.

(2) Ar ddechrau paragraff (1) o reoliad 12 (dodi tail da byw — y terfyn o ran cyfanswm y nitrogen ar gyfer yr holl ddaliad), mewnosoder “Ac eithrio pan fo'r meddiannydd wedi cael rhanddirymiad,”.

### Mewnosod Rhan 3A newydd

**5.** Ar ôl Rhan 3 (Cyfyngu ar ddodi tail organig), mewnosoder—

(**4**) OJ Rhif L 141, 6.6.09, t.48.

# "RHAN 3A

## Rhanddirymu

### Cais i randdirymu

**13A.**—(1) Caiff meddiannydd unrhyw ddaliad neu unrhyw berson ar ran y meddiannydd ("y ceisydd") wneud cais i'r Asiantaeth am randdirymiad os cafodd 80% neu fwy o'r ardal amaethyddol ei hau â phorfa.

(2) Rhaid cyflwyno cais i randdirymu—

(a) erbyn 30 Ebrill 2010 am randdirymiad 2010;

(b) o ran cais ar gyfer unrhyw flwyddyn ar ôl 2010, rhwng y dyddiadau 1 Hydref a 31 Rhagfyr yn y flwyddyn galendr o flaen honno y gwneir y cais ar ei chyfer.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r dull a'r ffurf y mae'n rhaid i'r cais gael ei wneud ynddynt.

(4) Rhaid i'r Asiantaeth ganiatáu neu wrthod cais i randdirymu cyn gynted ag y bo'n ymarferol a hysbysu'r ceisydd o'r penderfyniad yn ysgrifenedig ac, os bydd yr Asiantaeth yn gwrthod cais i randdirymu, rhaid iddi ar yr un pryd roi rhesymau dros wrthod.

(5) Rhaid i'r Asiantaeth wrthod cais i randdirymu os yw o'r farn y byddai caniatáu rhanddirymiad yn cael effaith andwyol ar gyfanrwydd–

(a) safle Ewropeaidd; neu

(b) safle morol alltraeth Ewropeaidd,

pan fo'r safleoedd hynny'n wedi bod yn ddarostyngedig i asesiad priodol o dan reoliad 48 o Reoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol, &c.) 1994(**5**).

(6) Pan fo'r Asiantaeth wedi gwrthod caniatáu'r cais i randdirymu, caiff y ceisydd apelio yn unol â'r weithdrefn a osodir yn rheoliad 13B.

(7) Pan fo'r Asiantaeth wedi caniatáu'r cais i randdirymu, rhaid i'r Asiantaeth ddynodi'r daliad y mae'r rhanddirymiad yn gymwys ar ei gyfer yn ddaliad a randdirymwyd am y flwyddyn galendr y gwnaed y cais ar ei chyfer.

(8) Rhaid i'r meddiannydd gadw cofnod o'r cais i randdirymu a'r penderfyniad.

(9) Yn y rheoliad hwn—

(a) ystyr "safle morol alltraeth Ewropeaidd" yw safle morol alltraeth Ewropeaidd o fewn ystyr rheoliad 15 (ystyr safle morol alltraeth Ewropeaidd) o Reoliadau Cadwraeth Morol Alltraeth (Cynefinoedd Naturiol, &c.) 2007(**6**); a

(b) ystyr "safle Ewropeaidd" yw safle Ewropeaidd o fewn ystyr rheoliad 10 (ystyr safle Ewropeaidd) o Reoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol, &c.) 1994.

### Apelio yn erbyn gwrthod cais i randdirymu

**13B.**—(1) Pan fo'r Asiantaeth wedi gwrthod cais i randdirymu, caiff y ceisydd drwy hysbysiad apelio yn erbyn y penderfyniad i banel annibynnol a benodwyd gan Weinidogion Cymru at ddibenion y Rheoliadau hyn ("y panel apelau ar gyfer cais i randdirymu").

(2) Rhaid i apêl yn erbyn gwrthod cais i randdirymu gael ei chyflwyno o fewn 30 o ddiwrnodau sy'n dechrau drannoeth dyddiad y gwrthod.

(**5**) O.S. 1994/2716.
(**6**) O.S. 2007/1842.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r dull a'r ffurf y mae'n rhaid i'r cais gael ei wneud ynddynt.

**Trafodion y panel apelau ar gyfer cais i randdirymu**

**13C.**—(1) Rhaid i'r panel apelau ar gyfer cais i randdirymu gael ei ffurfio o odrif o bersonau, heb fod yn llai na thri pherson, a dod i benderfyniad drwy fwyafrif syml.

(2) Rhaid i'r panel apelau ar gyfer cais i randdirymu ystyried yr apêl a phenderfynu p'un ai caniatáu'r apêl ai peidio.

(3) Rhaid i'r panel apelau ar gyfer cais i randdirymu ddod i benderfyniad yn seiliedig ar ddogfennau a gyflwynwyd iddo gan yr apelydd a'r Asiantaeth, oni fydd yn penderfynu fod arno angen gwybodaeth ychwanegol i ffurfio barn, ac os felly caiff—

(a) gofyn i'r apelydd, neu'r Asiantaeth, ddarparu deunyddiau ychwanegol; a

(b) mewn amgylchiadau eithriadol caiff gynnal gwrandawiad llafar.

(4) Mewn gwrandawiad llafar mae gan yr apelydd a'r Asiantaeth yr hawl i ymddangos.

(5) Rhaid i bob parti ysgwyddo ei gostau ei hun.

**Effaith canfyddiadau panel apelau ar gyfer cais i randdirymu**

**13CH.**—(1) Os bydd y panel apelau ar gyfer cais i randdirymu yn caniatáu'r apêl, rhaid i'r daliad y mae'r cais i randdirymu yn gymwys iddo gael ei ddynodi gan yr Asiantaeth fel daliad a randdirymwyd am y flwyddyn galendr honno.

(2) Rhaid i'r panel apelau ar gyfer cais i randdirymu—

(a) hysbysu'r Asiantaeth, y ceisydd a Gweinidogion Cymru, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, o'i ganfyddiadau; a

(b) os gwrthodir yr apêl, rhoi'r rhesymau dros wrthod.

**Daliadau a randdirymwyd**

**13D.** Mae Atodlen 4 yn cael effaith o ran daliadau a randdirymwyd.".

**Diwygio Rhan 4**

**6.**—(1) Diwygir Rhan 4 (Y gofynion ar gyfer cnydau) fel a ganlyn.

(2) Yn lle paragraff (3) o reoliad 15 (Yr wybodaeth ychwanegol sydd i'w chofnodi yn ystod y flwyddyn), rhodder—

"(3) Cyn taenu gwrtaith nitrogen a weithgynhyrchwyd, rhaid i'r meddiannydd gofnodi—

(a) faint sydd ei hangen; a

(b) y dyddiad a drefnwyd ar gyfer taenu (mis).".

(3) Yn rheoliad 16 (cyfanswm y nitrogen sydd i'w daenu ar ddaliad)—

(a) yn lle paragraff (a), rhodder—

"(a) y nitrogen o wrtaith nitrogen a weithgynhyrchwyd, a";

(b) yn lle paragraff (b) rhodder—

"(b) y nitrogen sydd ar gael i'r cnwd ei amsugno o dail da byw yn y tymor tyfu y caiff ei daenu ynddo, wedi'i gyfrifo yn unol â rheoliad 17,";

(c) ar ôl "a daenir ar y cnydau canlynol" hepgorer ", wedi'i gyfrifo'n unol â rheoliad 17,"; ac

(ch) yn lle troednodyn (d), rhodder—

“(d) Mae hyn yn cynnwys unrhyw nitrogen a ddodir fel esemptiad i'r cyfnod gwaharddedig ar gyfer gwrtaith nitrogen a weithgynhyrchwyd. Ceir cynyddu'r swm a ganiateir hyd at 30 kg yr hectar am bob hanner tunnell y mae'r cynnyrch a ddisgwylir yn uwch na'r cynnyrch safonol.”.

**Diwygio Rhan 5**

**7.**—(1) Diwygir Rhan 5 (Rheoli'r broses o daenu gwrtaith nitrogen) fel a ganlyn.

(2) Yn lle rheoliad 20 (taenu gwrtaith a weithgynhyrchwyd wrth ymyl dŵr wyneb), rhodder—

“**Taenu gwrtaith a weithgynhyrchwyd wrth ymyl dŵr wyneb**

**20.** Ni chaiff neb daenu gwrtaith nitrogen a weithgynhyrchwyd o fewn 2 fetr o ddŵr wyneb.”.

(3) Yn lle rheoliad 22 (rheoli'r modd y mae gwrtaith nitrogen yn cael ei daenu), rhodder—

“**Rheoli'r modd y mae gwrtaith nitrogen yn cael ei daenu**

**22.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid i unrhyw berson sy'n taenu slyri ddefnyddio cyfarpar taenu sydd â thafliad taenu sy'n llai na 4 metr o'r ddaear.

(2) Gellir defnyddio cyfarpar taenu sydd â thafliad taenu sy'n fwy na 4 metr o'r ddaear ar dir y mae'r risg o oferu drosto yn isel pan fydd cyfarpar o'r fath yn gallu cyflawni cyfartaledd cyflymder dodi slyri heb fod yn fwy na 2 filimedr yr awr pan fydd wrthi'n gweithredu'n ddi-dor.

(3) Rhaid i unrhyw berson sy'n taenu gwrtaith nitrogen wneud hynny mewn modd sydd mor gywir â phosibl.”.

**Diwygio Rhan 6**

**8.**—(1) Diwygir Rhan 6 (Cyfnodau gwaharddedig ar gyfer taenu gwrtaith nitrogen) fel a ganlyn.

(2) Yn lle paragraff (a) o reoliad 27 (esemptiadau ar gyfer daliadau organig), rhodder—

“(a) ar gnydau a bennir yn y tabl yn Atodlen 3 (cnydau a ganiateir am y cyfnod gwaharddedig), neu”.

**Diwygio Rhan 8**

**9.** Ym mharagraff (2) o reoliad 42 (cofnodion o daenu gwrtaith nitrogen) o Ran 8 (Cyfrifiadau a chofnodion), o flaen “a weithgynhyrchwyd” mewnosoder “nitrogen”.

**Diwygio'r Atodlenni**

**10.** Yn lle Atodlenni 1 i 3, rhodder cynnwys yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

**Diwygio Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol, &c.) 1994**

**11.**—(1) Diwygir Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol &c.) 1994(**7**) fel a ganlyn.

(2) Ar ôl rheoliad 84D (rhanddirymiadau o dan Reoliadau Atal Llygredd Nitradau 2008), mewnosoder—

(**7**) O.S. 1994/2716.

"**Derogations under the Nitrate Pollution Prevention (Wales) Regulations 2008**

**84E.**—(1) Regulations 48 (assessment of implications for European site) and 49 (considerations of overriding public interest) apply in relation to the granting of a derogation under Part 3A of the Nitrate Pollution Prevention (Wales) Regulations 2008(**8**).

(2) Where regulations 48 and 49 apply, the competent authority may, if they consider any adverse effects of the plan or project on the integrity of a European site or European offshore marine site would be avoided if the derogation were subject to conditions, grant the derogation, subject to those conditions.".

*Elin Jones*
Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

1 Mawrth 2010

(**8**) O.S. 2008/3143.

YR ATODLEN Rheoliad 10

"ATODLEN 1 Rheoliadau 6 a 38

Faint o dail, nitrogen a ffosffad a gynhyrchir gan dda byw sy'n pori a da byw nad ydynt yn pori

**Tabl 1**

**Da byw sy'n pori**

| *Categori* | *Y tail a gynhyrchir bob dydd gan bob anifail (litrau)* | *Y nitrogen a gynhyrchir bob dydd gan bob anifail (gramau)* | *Y ffosffad a gynhyrchir bob dydd gan bob anifail (gramau)* |
|---|---|---|---|
| **Gwartheg** | | | |
| Llo (pob categori ac eithrio ar gyfer cig llo) hyd at 3 mis: | 7 | 23 | 12.7 |
| Buwch odro— | | | |
| O 3 mis a llai na 13 mis: | 20 | 95 | 34 |
| O 13 mis tan ei llo cyntaf: | 40 | 167 | 69 |
| Ar ôl ei llo cyntaf ac y mae— | | | |
| ei chynnyrch llaeth blynyddol yn fwy na 9000 o litrau: | 64 | 315 | 142 |
| ei chynnyrch llaeth blynyddol rhwng 6000 a 9000 o litrau: | 53 | 276 | 121 |
| ei chynnyrch llaeth blynyddol yn llai na 6000 o litrau: | 42 | 211 | 93 |
| Buchod neu fustych cig eidion[(a)]— | | | |
| O 3 mis a llai na 13 mis: | 20 | 91 | 33 |
| O 13 mis a llai na 25 mis: | 26 | 137 | 43 |
| O 25 mis— | | | |
| gwartheg benyw neu fustych i'w cigydda: | 32 | 137 | 60 |

**(a)** Gwryw wedi'i sbaddu.

**(b)** Yn achos mamog, mae'r ffigur hwn yn cynnwys un neu fwy o ŵyn sugno nes bod yr ŵyn yn chwe mis oed.

| *Categori* | *Y tail a gynhyrchir bob dydd gan bob anifail (litrau)* | *Y nitrogen a gynhyrchir bob dydd gan bob anifail (gramau)* | *Y ffosffad a gynhyrchir bob dydd gan bob anifail (gramau)* |
|---|---|---|---|
| gwartheg benyw ar gyfer bridio— | | | |
| sy'n pwyso 500kg neu lai: | 32 | 167 | 65 |
| sy'n pwyso'n fwy na 500kg: | 45 | 227 | 86 |
| Teirw | | | |
| Nad ydynt yn bridio, 3 mis a throsodd: | 26 | 148 | 24 |
| Bridio— | | | |
| o 3 mis a llai na 25 mis: | 26 | 137 | 43 |
| o 25 mis: | 26 | 132 | 60 |
| **Defaid** | | | |
| O 6 mis hyd at 9 mis oed: | 1.8 | 5.5 | 0.76 |
| O 9 mis oed hyd at ŵyna am y tro cyntaf, hwrdda am y tro cyntaf, neu gigydda: | 1.8 | 3.9 | 2.1 |
| Ar ôl ŵyna neu hwrdda[(b)]— | | | |
| yn pwyso llai na 60 kg: | 3.3 | 21 | 8.8 |
| yn pwyso dros 60kg: | 5 | 33 | 10.0 |
| **Geifr, ceirw a cheffylau** | | | |
| Geifr: | 3.5 | 41 | 18.8 |
| Ceirw— | | | |
| bridio: | 542 | 17.6 | |
| arall: | 3.5 | 33 | 11.7 |
| Ceffyl: | 24 | 58 | 56 |

**(a)** Gwryw wedi'i sbaddu.

**(b)** Yn achos mamog, mae'r ffigur hwn yn cynnwys un neu fwy o ŵyn sugno nes bod yr ŵyn yn chwe mis oed.

**Tabl 2**

**Da byw nad ydynt yn pori**

| *Categori* | *Y tail a gynhyrchir bob dydd gan bob anifail (litrau)* | *Y nitrogen a gynhyrchir bob dydd gan bob anifail (gramau)* | *Y ffosffad a gynhyrchir bob dydd gan bob anifail (gramau)* |
|---|---|---|---|
| **Gwartheg** | | | |
| Llo ar gyfer cig llo: | 7 | 23 | 12.7 |
| **Dofednod**[(a)] | | | |
| Iâr a ddefnyddir i gynhyrchu wyau i'w bwyta gan bobl— | | | |
| llai na 17 wythnos: | 0.04 | 0.64 | 0.47 |
| o 17 wythnos (mewn caets): | 0.12 | 1.13 | 1.0 |
| o 17 wythnos (heb fod mewn caets): | 0.12 | 1.5 | 1.1 |
| Ieir a fegir am eu cig: | 0.06 | 1.06 | 0.72 |
| Ieir a fegir ar gyfer bridio— | | | |
| llai na 25 wythnos: | 0.04 | 0.86 | 0.78 |
| o 25 wythnos: | 0.12 | 2.02 | 1.5 |
| Twrci— | | | |
| gwryw: | 0.16 | 3.74 | 3.1 |
| benyw: | 0.12 | 2.83 | 2.3 |
| Hwyaden: | 0.10 | 2.48 | 2.4 |
| Estrys: | 1.6 | 3.83 | 18.5 |
| **Moch** | | | |
| Pwysau o 7kg ac yn llai na 13kg: | 1.3 | 4.1 | 1.3 |
| Pwysau o 13kg ac yn llai na 31kg: | 2 | 14.2 | 6.0 |
| Pwysau o 31kg ac yn llai na 66kg— | | | |
| bwydo sych: | 3.7 | 24 | 12.1 |
| bwydo hylif: | 7.1 | 24 | 12.1 |
| Pwysau o 66kg ac— | | | |

**(a)** Nodyn: mae pob ffigur ar gyfer dofednod yn cynnwys sarn.

| *Categori* | *Y tail a gynhyrchir bob dydd gan bob anifail (litrau)* | *Y nitrogen a gynhyrchir bob dydd gan bob anifail (gramau)* | *Y ffosffad a gynhyrchir bob dydd gan bob anifail (gramau)* |
|---|---|---|---|
| a fwriadwyd ar gyfer eu cigydda— | | | |
| bwydo sych: | 5.1 | 33 | 17.9 |
| bwydo hylif: | 10 | 33 | 17.9 |
| hwch a fwriadwyd ar gyfer bridio na chafodd ei thorraid gyntaf hyd yn hyn: | 5.6 | 38 | 20 |
| hwch (gan gynnwys torraid hyd at 7kg) wedi'i bwydo ar ddeiet gydag atchwanegiadau asidau amino synthetig: | 10.9 | 44 | 37 |
| hwch (gan gynnwys torraid hyd at 7kg) wedi'i bwydo ar ddeiet heb asidau amino synthetig: | 10.9 | 49 | 37 |
| baedd bridio o 66kg hyd at 150kg: | 5.1 | 33 | 17.9 |
| baedd bridio o 150kg: | 8.7 | 48 | 28 |

**(a)** Nodyn: mae pob ffigur ar gyfer dofednod yn cynnwys sarn.

ATODLEN 2 — Rheoliad 17

Cyfrifo'r nitrogen sydd mewn tail

# RHAN 1

## Tabl safonau

### Cyfanswm y nitrogen mewn tail

| *Tail ac eithrio slyri* | *Cyfanswm y nitrogen ym mhob tunnell (kg)* |
|---|---|
| Tail ac eithrio slyri o'r anifeiliaid a ganlyn— | |
| gwartheg: | 6 |
| moch: | 7 |
| defaid: | 7 |

| *Tail ac eithrio slyri* | *Cyfanswm y nitrogen ym mhob tunnell (kg)* |
|---|---|
| hwyaid: | 6.5 |
| ceffylau: | 7 |
| geifr: | 6 |
| Tail o ieir dodwy: | 19 |
| Tail o dyrcwn neu ieir brwylio: | 30 |

| *Slyri* | | *Cyfanswm y nitrogen ym mhob metr ciwbig (kg)* |
|---|---|---|
| Gwartheg: | 2.6 | |
| Moch: | 3.6 | |
| Slyri gwartheg wedi'i wahanu (ffracsiwn hylifol)— | | |
| | blwch hidlo: | 1.5 |
| | wal hidlo: | 2 |
| | hidl fecanyddol: | 3 |
| Slyri gwartheg wedi'i wahanu (ffracsiwn solet): | | 4 |
| Slyri moch wedi'i wahanu (ffracsiwn hylifol): | | 3.6 |
| Slyri moch wedi'i wahanu (ffracsiwn solet): | | 5 |
| Dŵr budr: | | 0.5 |

# RHAN 2

## Samplu a dadansoddi

### Slyri

**1.**—(1) O ran slyri, rhaid cymryd o leiaf bum sampl a phob un ohonynt yn 2 litr.

(2) Rhaid i'r sampl gael ei chymryd o lestr dal slyri, ac—

(a) os yw'n rhesymol ymarferol, rhaid i'r slyri fod wedi'i gymysgu'n drylwyr cyn i'r samplau gael eu cymryd, a

(b) rhaid i bob sampl gael ei chymryd o le gwahanol.

(3) Ond os oes falf addas wedi'i gosod ar dancer sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer taenu, caniateir i'r samplau gael eu cymryd wrth daenu, a rhaid i bob sampl gael ei chymryd bob hyn a hyn yn ystod y broses daenu.

(4) Rhaid i'r samplau gael eu harllwys i gynhwysydd mwy ei faint, eu troi'n drylwyr a rhaid i sampl 2 litr gael ei chymryd o'r cynhwysydd hwnnw a'i harllwys i gynhwysydd glân llai.

(5) Rhaid i'r sampl honno gael ei hanfon wedyn i gael ei dadansoddi.

### Tail solet

**2.**—(1) O ran tail solet, rhaid cymryd y samplau o domen dail.

(2) Rhaid cymryd o leiaf ddeg sampl 1kg yr un, a phob un ohonynt o fan gwahanol mewn tomen.

(3) Rhaid i bob is-sampl gael ei chymryd o leiaf 0.5 metr o wyneb y domen.

(4) Os yw samplau yn cael eu casglu i gyfrifo i ba raddau y cydymffurfiwyd â'r terfyn fferm gyfan ar gyfer moch a dofednod, rhaid cymryd pedair sampl i'w dadansoddi mewn blwyddyn galendr (gan gymryd un ym mhob chwarter) o domenni tail nad ydynt yn fwy na 12 mis oed.

(5) Rhaid dodi'r is-samplau ar hambwrdd neu ddalen sy'n lân a sych.

(6) Rhaid i unrhyw dalpiau gael eu torri a rhaid cymysgu'r is-samplau â'i gilydd yn drylwyr.

(7) Rhaid i sampl nodweddiadol, sy'n pwyso o leiaf 2 kg, gael ei hanfon wedyn i gael ei dadansoddi.

## ATODLEN 3

Rheoliadau 27 a 29

### Y cnydau a ganiateir am y cyfnod gwaharddedig

| *Y cnwd* | *Y gyfradd uchaf o nitrogen (kg/hectar)* |
|---|---|
| Rêp had olew, gaeaf[a] | 30 |
| Merllys | 50 |
| Bresych[b] | 100 |
| Porfa[a][c] | 80 |
| Sgaliwns wedi'u gaeafu | 40 |
| Perllys | 40 |
| Bylbiau winwns | 40 |

**(a)** Rhaid peidio â thaenu nitrogen ar y cnydau hyn ar ôl 31 Hydref.

**(b)** Caniateir i 50 kg ychwanegol o nitrogen yr hectar gael ei daenu bob pedair wythnos yn ystod y cyfnod gwaharddedig hyd at ddyddiad y cynhaeaf.

**(c)** Caniateir i uchafswm o 40kg o nitrogen yr hectar gael ei daenu ar unrhyw un adeg.

## ATODLEN 4

Rheoliad 13D

### Daliadau a randdirymwyd

**1.** Mae'r gofynion ychwanegol a ganlyn yn gymwys i ddaliadau a randdirymwyd.

#### Rhanddirymiad oddi wrth y mesurau sy'n llywodraethu'r terfyn wrth ddodi tail da byw

**2.** Rhaid i feddiannydd daliad a randdirymwyd sicrhau yn unrhyw flwyddyn galendr y rhoddwyd rhanddirymiad ynglŷn â hi bod—

$$A \geq (Ngl \div 250) + (Nngl \div 170)$$

lle—

*A* yw ardal y daliad a randdirymwyd (hectarau), fel y mae ar 1 Ionawr ar gyfer y flwyddyn galendr honno,

*Ngl* yw cyfanswm y nitrogen (cilogramau) mewn tail da byw gan dda byw sy'n pori, p'un a ddodir ef yn uniongyrchol gan anifail neu wrth ei daenu, a

*Nngl* yw cyfanswm y nitrogen (cilogramau) mewn tail da byw gan dda byw nad ydynt yn pori, p'un a ddodir ef yn uniongyrchol gan anifail neu wrth ei daenu.

### Cynllunio'r modd y mae gwrtaith ffosffad yn cael ei daenu

**3.**—(1) Yn ychwanegol at lunio cynlluniau ynghylch taenu nitrogen o dan reoliad 14 (cynllunio'r modd y mae gwrtaith nitrogen yn cael ei daenu) rhaid i'r meddiannydd—

(a) asesu faint o ffosfforws yn y pridd sy'n debygol o fod ar gael i'w amsugno gan y cnwd yn ystod y tymor tyfu ("y cyflenwad ffosfforws yn y pridd");

(b) cyfrifo'r maint gorau posibl o wrtaith ffosffad y dylid ei daenu ar y cnwd, gan gymryd i ystyriaeth faint o ffosfforws sydd ar gael o'r cyflenwad ffosfforws yn y pridd; ac

(c) llunio cynllun ar gyfer taenu gwrtaith ffosffad ar gyfer y tymor tyfu hwnnw.

(2) Rhaid i'r meddiannydd wneud hyn—

(a) yn achos unrhyw gnwd ac eithrio glaswelltir parhaol, cyn taenu unrhyw wrtaith ffosffad am y tro cyntaf at ddibenion gwrteithio cnwd a blannwyd neu y bwriedir ei blannu; a

(b) yn achos glaswelltir parhaol, bob blwyddyn gan ddechrau ar 1 Ionawr cyn taenu gwrtaith ffosffad.

**4.** Yn ychwanegol at y gofynion o dan baragraff 3 rhaid i'r cynllun gwrteithio gofnodi—

(a) y cyflenwad ffosfforws yn y pridd a'r dull a ddefnyddir i gadarnhau'r ffigur hwn;

(b) cyfrifo'r maint gorau posibl o wrtaith ffosffad y dylid ei daenu ar y cnwd, gan gymryd i ystyriaeth faint o ffosfforws sydd ar gael o'r cyflenwad ffosfforws yn y pridd; ac

(c) faint o nitrogen sy'n debygol o fod ar gael i'w amsugno gan y cnwd o unrhyw dail organig y bwriedir ei daenu i'w amsugno gan y cnwd yn y tymor tyfu yn ystod y flwyddyn galendr y taenir ef ynddi;

(ch) faint o ffosffad sy'n debygol o gael ei gyflenwi i fodloni gofyniad y cnwd o unrhyw dail organig a daenir neu y bwriedir ei daenu yn ystod y flwyddyn galendr;

(d) faint o wrtaith nitrogen a weithgynhyrchwyd sydd ei angen (hynny yw, y maint gorau posibl o nitrogen y mae ei angen ar y cnwd gan ddidynnu faint o nitrogen a fydd ar gael i'r cnwd ei amsugno o unrhyw dail organig a daenir yn ystod y flwyddyn galendr honno); ac

(dd) faint o wrtaith ffosffad a weithgynhyrchwyd sydd ei angen (hynny yw, y maint gorau posibl o ffosffad y mae ei angen ar y cnwd gan ddidynnu faint o ffosffad a gyflenwir i'r cnwd ei amsugno o unrhyw dail organig a daenir at ddibenion gwrteithio'r cnwd yn ystod y flwyddyn galendr honno).

### Samplu a dadansoddi pridd

**5.**—(1) Bob pedair blynedd o leiaf rhaid i'r meddiannydd ymgymryd â samplu a dadansoddi pridd ar gyfer cyflenwad o ffosfforws o bob pum hectar o leiaf o ardal amaethyddol y daliad a randdirymwyd sydd o dan yr un drefn gnydio a math o bridd.

(2) Caiff meddiannydd ddibynnu ar ganlyniadau blaenorol samplu a dadansoddi pridd ffosfforws o ardal amaethyddol y daliad a randdirymwyd sydd o dan yr un drefn gnydio a math o bridd at ddibenion is-baragraff (1), ar yr amod y cyflawnwyd y samplu a'r dadansoddi hwnnw o fewn pedair blynedd cyn y rhanddirymiad.

(3) Os na chyflawnwyd samplu a dadansoddi pridd ffosfforws o ardal amaethyddol y daliad a randdirymwyd sydd o dan yr un drefn gnydio a math o bridd cyn 2010, rhaid cyflawni'r samplu a dadansoddi hwnnw fel a ganlyn—

(a) 75% o'r ardal amaethyddol erbyn 1 Mawrth 2011, a

(b) 100% o'r ardal amaethyddol erbyn 1 Mawrth 2012.

**Yr wybodaeth ychwanegol sydd i'w chofnodi yn ystod y flwyddyn**

**6.**—(1) Yn ychwanegol at yr wybodaeth sydd i'w chofnodi o dan reoliad 15 (yr wybodaeth ychwanegol sydd i'w chofnodi yn ystod y flwyddyn) rhaid i'r meddiannydd, cyn taenu tail organig, gofnodi—

(a) cyfanswm cynnwys ffosffad y tail organig; a

(b) faint o ffosffad sy'n debygol o gael ei gyflenwi o'r tail organig y bwriedir ei daenu at ddibenion gwrteithio'r cnwd yn y tymor tyfu y taenir ef ynddo.

(2) Yn ychwanegol at ofynion is-baragraff (1) rhaid i'r meddiannydd, cyn taenu gwrtaith ffosffad a weithgynhyrchwyd, gofnodi—

(a) faint sydd ei angen (hynny yw, y maint gorau posibl o ffosffad y mae ei angen ar y cnwd gan ddidynnu faint o ffosffad a gyflenwir i'r cnwd ei amsugno o unrhyw dail organig a daenir); a

(b) y dyddiad a drefnwyd ar gyfer taenu (mis).

**Mapiau risg**

**7.**—(1) Yn ychwanegol at y gofynion o dan reoliad 18 (mapiau risg), rhaid i fap risg—

(a) dangos pob cae wedi'i farcio â Rhif cyfeirnod neu rif sy'n galluogi croesgyfeirio at gaeau a gofnodwyd yn y cynlluniau gwrteithio;

(b) cyfateb i ardal amaethyddol y daliad a randdirymwyd; ac

(c) cael ei gwblhau erbyn 1 Mawrth 2011 a 1 Mawrth 2012 ar gyfer y blynyddoedd calendr hynny.

(2) Rhaid i'r meddiannydd ddiweddaru'r map risg o fewn mis o unrhyw newid mewn amgylchiadau.

**Cynnal y daliad a randdirymwyd yn ddaliad glaswelltir**

**8.** Rhaid i'r meddiannydd gynnal y daliad i sicrhau bod 80% neu fwy o'r ardal amaethyddol sydd ar gael i ddodi tail arni yn cael ei hau â phorfa yn ystod y flwyddyn galendr honno.

**Cyfnod gwaharddedig ar gyfer aredig porfa ar y daliad a randdirymwyd**

**9.** O ran unrhyw borfa a gafodd ei haredig ar neu ar ôl 1 Ebrill 2010, ni chaiff neb—

(a) aredig glaswelltir dros dro ar briddoedd tywodlyd rhwng 1 Gorffennaf a 31 Rhagfyr;

(b) aredig porfa ar briddoedd tywodlyd cyn 16 Ionawr lle y cafodd tail da byw ei daenu ar y borfa honno rhwng 1 Medi a 31 Rhagfyr yn y flwyddyn galendr flaenorol; ac

(c) aredig porfa ar briddoedd nad ydynt yn briddoedd tywodlyd cyn 16 Ionawr lle y cafodd tail da byw ei daenu ar y borfa honno rhwng 15 Hydref yn y flwyddyn galendr flaenorol a 15 Ionawr.

**Hadu cnydau ar ôl porfa ar y daliad a randdirymwyd**

**10.** O ran hadu cnydau neu borfa ar unrhyw borfa a gafodd ei haredig ar neu ar ôl 1 Ebrill 2010, rhaid bod y tir—

(a) wedi'i hau gan gnwd sydd â galw mawr am nitrogen o fewn pedair wythnos sy'n dechrau drannoeth dyddiad aredig y borfa; neu

(b) wedi'i hau gan borfa o fewn chwe wythnos sy'n dechrau drannoeth dyddiad aredig y borfa.

### Cylchdro cnydau ar y daliad a randdirymwyd

**11.** Rhaid i gylchdro cnydau beidio â chynnwys codlysiau neu blanhigion eraill sy'n trosi nitrogen atmosfferig ac eithrio porfa sydd â llai na 50% o feillion a chodlysiau eraill gyda phorfa wedi'i hau oddi tanynt.

### Cofnodi maint y daliad a randdirymwyd

**12.**—(1) Rhaid i feddiannydd gofnodi cyfanswm yr ardal amaethyddol a'r ardal o borfa o fewn y daliad a randdirymwyd erbyn 1 Mawrth 2011 a 1 Mawrth 2012 ar gyfer y blynyddoedd calendr hynny.

(2) Os bydd maint y daliad a randdirymwyd neu ardal o borfa yn newid rhaid i'r meddiannydd ddiweddaru'r cofnod o fewn mis sy'n dechrau drannoeth y newid.

### Cofnodion ynglŷn â storio tail yn ystod y cyfnod storio

**13.** Yn ychwanegol at ofynion rheoliad 36 (cofnodion ynglŷn â storio tail yn ystod y cyfnod storio) rhaid i'r meddiannydd wneud cofnod sy'n disgrifio'r systemau siediau da byw a storio tail ynghyd â faint o le storio tail sydd ar gael ar y daliad erbyn 1 Mawrth 2011 a 1 Mawrth 2012 ar gyfer y blynyddoedd calendr hynny.

### Cofnod o'r nitrogen a'r ffosffad a gynhyrchir gan anifeiliaid

**14.**—(1) Rhaid i'r meddiannydd gofnodi nifer y da byw a ddisgwylir a'r categori (yn unol â'r categorïau yn Nhablau 1 a 2 yn Atodlen 1) i'w cadw ar y daliad yn ystod y flwyddyn galendr honno.

(2) Yn dilyn y gofynion ynghylch cofnodi yn is-baragraff (1), rhaid i'r meddiannydd wedyn gyfrifo a chofnodi faint o nitrogen a ffosffad mewn tail y disgwylir i'r da byw eu cynhyrchu ar y daliad yn ystod y flwyddyn honno gan ddefnyddio Tablau 1 a 2 yn Atodlen 1.

(3) Rhaid i'r cofnodion sydd i'w gwneud yn unol ag is-baragraffau (1) a (2) gael eu gwneud cyn 1 Mawrth 2011 a 1 Mawrth 2012 ar gyfer y blynyddoedd calendr hynny.

### Tail da byw y bwriedir dod ag ef i'r daliad a randdirymwyd neu ei anfon oddi yno

**15.**—(1) Rhaid i'r meddiannydd—

(a) gwneud cofnod o'r math o dail da byw a faint ohono y bwriedir dod ag ef i'r daliad a'i anfon oddi yno yn ystod y flwyddyn galendr honno; a

(b) cyfrifo a chofnodi faint o nitrogen yn y tail da byw a gofnodwyd o dan is-baragraff (1)(a) yn unol â rheoliad 39(4).

(2) Rhaid i'r cofnodion sydd i'w gwneud o dan is-baragraff (1) gael eu gwneud cyn 1 Mawrth 2011 a 1 Mawrth 2012 ar gyfer y blynyddoedd calendr hynny.

### Cofnodion o'r cnydau a heuwyd

**16.** Yn ychwanegol at ofynion rheoliad 41 (cofnodion o'r cnydau a heuwyd) rhaid i feddiannydd sy'n bwriadu taenu gwrtaith ffosffad, o fewn wythnos o hau cnwd gofnodi—

(a) y cnwd a heuwyd; a

(b) y dyddiad hau.

**Cofnodion o daenu gwrtaith ffosffad**

**17.** Yn ychwanegol at ofynion rheoliad 42 (cofnodion o daenu gwrtaith nitrogen), rhaid i feddiannydd gofnodi—

(a) o fewn wythnos o daenu tail organig—

(i) cyfanswm y cynnwys ffosfforws; a

(ii) faint o ffosffad a gyflenwyd i'w amsugno gan y cnwd; a

(b) o fewn wythnos o daenu gwrtaith ffosffad a weithgynhyrchwyd—

(i) y dyddiad taenu; a

(ii) faint o ffosffad a daenwyd.

**Cofnodi dyddiad yr aredig**

**18.** Yn ychwanegol at ofynion rheoliad 43 (cofnodion dilynol) rhaid i feddiannydd gofnodi o fewn wythnos o'r aredig, ddyddiad yr aredig hwnnw.

**Cyfrifon gwrteithio**

**19.**—(1) Rhaid i feddiannydd, neu unrhyw berson ar ran y meddiannydd, gyflwyno cyfrifon gwrteithio ar gyfer y flwyddyn galendr i'r Asiantaeth erbyn 30 Ebrill o'r flwyddyn ganlynol.

(2) Rhaid i'r Asiantaeth gyhoeddi'r dull a'r ffurf y mae'n rhaid i gyfrif gwrteithio gael ei wneud ynddynt.

(3) Rhaid i'r cyfrif gwrteithio gofnodi—

(a) cyfanswm ardal amaethyddol y daliad a randdirymwyd;

(b) yr ardal o'r daliad a randdirymwyd a orchuddiwyd gan—

(i) gwenith gaeaf,

(ii) gwenith gwanwyn,

(iii) haidd gaeaf,

(iv) haidd gwanwyn,

(v) rêp had olew gaeaf,

(vi) betys siwgr,

(vii) tatws,

(viii) indrawn porthi,

(ix) porfa, a

(x) cnydau eraill;

(c) nifer a chategori'r anifeiliaid a gadwyd ar y daliad a randdirymwyd yn ystod y flwyddyn galendr flaenorol yn unol â'r categorïau a ddisgrifir yn Nhablau 1 a 2 yn Atodlen 1;

(ch) faint o nitrogen a ffosffad oedd yn y tail a gynhyrchwyd gan yr anifeiliaid ar y daliad a randdirymwyd yn ystod y flwyddyn galendr flaenorol gan ddefnyddio Tablau 1 a 2 yn Atodlen 1;

(d) faint o dail da byw a pha fath a ddygwyd i'r daliad a randdirymwyd neu ei anfon oddi yno yn ystod y flwyddyn galendr flaenorol;

(dd) faint o nitrogen a ffosffad oedd yn y tail a gofnodwyd o dan is-baragraff (3)(d) a gyfrifwyd yn unol â pharagraff 14(2);

(e) pwysau (tunelli) a chynnwys nitrogen yr holl stociau gwrtaith nitrogen a weithgynhyrchwyd a gadwyd ar y daliad a randdirymwyd rhwng 1 Ionawr a 31 Rhagfyr yn y flwyddyn galendr flaenorol; a

(f) pwysau (tunelli) a chynnwys nitrogen yr holl wrtaith nitrogen a weithgynhyrchwyd a ddygwyd i'r daliad a randdirymwyd a'i anfon oddi yno rhwng 1 Ionawr a 31 Rhagfyr yn y flwyddyn galendr flaenorol.”.

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) 2008 (O.S. 2008/3143) (“y Rheoliadau Nitradau”) a Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol, &c.) 1994 (O.S. 1994/2716) (“y Rheoliadau Cynefinoedd”).

Maent yn gweithredu yng Nghymru Benderfyniad y Comisiwn 2009/431/EC (OJ Rhif L 141, 6.6.09, t.48) sy'n caniatáu rhanddirymiad yn unol â Chyfarwyddeb y Cyngor 91/676/EEC ynghylch diogelu dyfroedd rhag llygredd gan nitradau sy'n dod o ffynonellau amaethyddol (OJ Rhif L 375, 31.12.91, t.1, a ddiwygiwyd gan OJ Rhif L 284, 31.10.03, t1, OJ. Rhif L 311, 21.11.08, t.1).

Mae rheoliad 3 yn diwygio rheoliad 6 (Dehongli). Mae rheoliad 5 yn mewnosod Rhan 3A newydd sy'n cyflwyno gweithdrefn y mae'n rhaid i gais am randdirymiad gael ei wneud drwyddi ac mae'n sefydlu gweithdrefn apelio yn erbyn gwrthod cais am randdirymiad.

Mae rheoliad 7 yn caniatáu defnyddio cyfarpar taenu a chanddo dafliad taenu sy'n fwy na 4 metr o'r ddaear mewn amgylchiadau penodol.

Mae rheoliad 10 yn disodli Atodlenni 1 i 3 ac yn mewnosod Atodlen 4 newydd sy'n pennu gofynion ychwanegol y mae meddiannydd daliad a randdirymwyd i'w bodloni.

Mae rheoliad 11 yn mewnosod rheoliad 84E newydd yn y Rheoliadau Cynefinoedd sy'n ei gwneud yn ofynnol i ystyried effaith ar safle Ewropeaidd cyn caniatáu rhanddirymiad ac, yn ddarostyngedig i eithriadau penodol, yn cyfyngu ar y caniatâd i randdirymu pe byddai effaith andwyol ar gyfanrwydd y safle Ewropeaidd.

Nid oes asesiad effaith reoleiddiol wedi cael ei baratoi ar gyfer y Rheoliadau hyn.